



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



UNDEB Ewropeaidd
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund



Beth yw Hyfforddeiaeth?

Mae Hyfforddeiaeth yn rhaglen ddysgu sy'n darparu'r sgiliau sydd eu hangen arnoch i gael swydd neu symud ymlaen i ddysgu pellach neu brentisiaeth yn y dyfodol. Mae Hyfforddeiaeth yn gyfle i chi roi tro ar swydd y gallech fod â diddordeb ynddi cyn ymrwymo i ddilyn cwrs neu brentisiaeth. Byddwch yn cael eich talu am Hyfforddeiaeth a byddwch yn cael cymorth gan eich cyflogwr i ddatblygu'ch sgiliau a'ch gwybodaeth. Mae Hyfforddeiaethau ar gael ar dair lefel er mwyn sicrhau eich bod yn cael y cymorth priodol:

Ymgysylltu Gallai'r dewis hwn fod yn addas i chi os nad ydych yn siwr beth rydych am ei wneud fel gyrfa, neu os oes angen cymorth arnoch i gymryd rhan mewn cyflogaeth neu addysg.

Lefel 1 Dyma'r lefel i chi os ydych yn gwybod pa yrfa rydych am ei dilyn a'ch bod yn gallu dysgu ar Lefel 1.

Lefel 2 Dyma'r lefel i chi os ydych wedi cwblhau Lefel 1 a'ch bod yn barod am gyflogaeth lawn amser, neu os ydych yn ddi-waith ar hyn o bryd ac yn adnabod cyflogwr sy'n barod i roi swydd i chi.

Ydw i'n gymwys?

Mae Hyfforddeiaethau ar gyfer pobl ifanc 16-17 oed yng Nghymru nad ydynt mewn addysg lawn amser ac nad ydynt yn gyflogedig. Hefyd, gallwch wneud cais os ydych yn 18 oed a'ch bod wedi gadael yr ysgol neu'r coleg.

Sut allaf gael mynediad i Hyfforddeiaeth?

Os ydych yn yr ysgol o hyd, dylech siarad â'ch Cynghorydd Gyrfaedd.

Os ydych wedi gadael yr ysgol, ffoniwch Cymru'n Gweithio AM DDIM ar **0800 028 4844** neu ewch i www.cymrungweithio.llyw.cymru

Stori Stella

Mae Stella Vasiliou, sy'n 19 oed ac yn dod o'r Barri, yn dilyn gyrfa addawol fel saer coed gyda Chyngor Sir Bro Morgannwg ar ôl ystyried llwybrau dysgu eraill cyn hynny. Ar ôl gadael yr ysgol gyda chymwysterau mewn Coginio a Chelf Tri Dimensiwn, fe gafodd Stella ei hannog i astudio celf a dylunio yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro, ond ar ôl astudio yno am flwyddyn, penderfynodd nad oedd y cwrs yn addas iddi.

Diolch i'r cwmni darparu hyfforddiant, ACT Cyf, clywodd Stella am ystod o ddewisiadau gyrfa newydd a oedd yn gweddu i'w diddordeb mewn adeiladu. Roedd y diddordeb hwn wedi deillio o'r amser pan oedd Stella yn helpu ei thad, sy'n drydanwr, yn ystod gwyliau'r ysgol. Roedd Stella yn benderfynol o lwyddo mewn sector sy'n tueddu i gael ei reoli gan ddynion, ac fe aeth ati i gwblhau Hyfforddeiaeth Lefel 1 mewn Adeiladu o fewn saith mis yn unig. Ar ôl creu argraff ffafriol iawn yn ystod lleoliad gwaith gyda Chyngor Bro Morgannwg, cynigiwyd Prentisiaeth mewn Gwaith Coed i Stella yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro.

Meddai Stella: "Rwyf wedi gweithio'n galed iawn i gyrraedd y sefyllfa hon. Fe wnes i gymryd ambell i gam gwag cyn dilyn y llwybr hwn, ond fyddwn i ddim yn newid hynny. Rwy'n mwynhau'r gwaith yn fawr iawn, rwy'n gallu gwneud y gwaith yn dda, a hoffwn i brofi i eraill sy'n gadael yr ysgol nad graddau yw popeth. Fe allwch fod yn llwyddiannus mewn ffyrdd eraill."